



Canllawiau Cyfreithiol a Barnwriaeth

SIR ANDREW MCFARLANE

LLYWYDD YR ADRAN DEULU A'R PENNAETH CYFIAWNDER TEULUOL

Bwriedir y Canllawiau hyn a gyflwynir gyda chymeradwyaeth Yr Arglwydd Brif Ustus a'r Uwch Farnwr Llywyddol, i gael eu dilyn ar unwaith gan bob lefel o'r Llys Teulu ac yn Adran Deulu yr Uchel Lys.

2. Nod y Canllawiau yw 'Cynnal Busnes yn Ddiogel.' Mae sicrhau bod y System Cyfiawnder Teulu yn parhau i weithredu mor normal â phosibl er gwaethaf y pandemig presennol o fudd mawr i'r cyhoedd. Ar yr un pryd, yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, mae angen cymryd holl ragofalon rhesymol a synhwyrol i atal haint ac, yn arbennig, i osgoi cyswllt personol dianghenraid.

3. Y sefyllfa diofyn, am y tro, yw y dylai holl wrandawiadau Llys Teulu gael eu cynnal o bell naill ai drwy e-bost, dros y ffôn, fideo neu Skype ac ati [gwrandawriad o bell], ble mae gofynion tegwch a chyfiawnder angen gwrandawriad llys, a'i fod yn ddiogel cynnal un, yna dylai gwrandawriad yn y llys gael ei gynnal.

Y Rheolau

5. Mae'r Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010 yn darparu ar gyfer defnyddio gwrandawiadau o bell mewn achosion priodol. Mae FPR, r 1.4(e) yn nodi bod yn rhaid i'r llys hyrwyddo'r Prif Amcan drwy wneud defnydd o dechnoleg. Mae FPR r 4.1(3)(e) yn nodi y gall y llys gynnal gwrandawriad a derbyn tystiolaeth dros y ffôn neu drwy ddefnyddio unrhyw ddull arall o gyfathrebu ar lafar yn uniongyrchol. Mewn achosion cyfraith gyhoeddus, mae FPR PD12A para 24 yn ei gwneud yn ofynnol pan mae cyfleusterau ar gael i'r llys a'r partion, y dylai'r llys ystyried gwneud defnydd llawn o dechnoleg, gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth electronig a chynadledd fideo neu dros y ffôn. Mae FPR r 22.3 yn nodi y gall y llys ganiatáu i dyst roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo neu fodd arall. Mae Atodiad 3 gyda FPR PD22A yn rhoi manylion canllawiau am sut y dylid delio gyda fideo-gynadledda yn y llys. Yn olaf, yn r.4.3 gall y llys wneud gorchmynion drwy ei fenter ei hun.

Gwrandawiadau o Bell

6. Mae'r cyfleusterau i alluogi gwrandawiadau o bell yn cael eu trafod yn fwy manwl ym mharagraff 14.

7. Yn wahanol i dreialon rheithgor yn Llys y Goron, nid oes yna gategori achos a restrir yn y Llys Teulu sydd angen i'r prif gyfranogwyr fod yn bresennol yn gorfforol yn yr un ystafell llys. Felly, ni fydd penderfyniad pa un a ddylai gwrandawriad o bell gael ei gynnal yn edrych ar hyd y gwrandawriad ar amcangyfrif, ond ffactorau eraill sy'n benodol i'r achos.

8. Mae'r categorïau gwrandawriad canlynol yn addas ar gyfer gwrandawriad o bell:

- a. Holl gyfarwyddiadau a gwrandawiadau rheoli achos;
- b. Plant Cyfraith Gyhoeddus:

- i. Gorchmynion Amddiffyn Brys
 - ii. Gorchymyn Gofal Dros Dro
 - iii. Cyflwyno Gwrandawiadau Penderfyniad;
- c. Plant Cyfraith Breifat;
- i. Apwyntiadau Penderfynu ar Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf
 - ii. Apwyntiadau Penderfynu ar Anghydfod
 - iii. Gwrandawiadau interim eraill
 - iv. Achosion byr syml sy'n cael eu herio

Mae'n bosibl y bydd achosion eraill yn addas i gael eu cynnal o bell hefyd. Wrth i'r sefyllfa bresennol newid mor sydyn, ac wrth i'r amgylchiadau fydd yn effeithio ar y penderfyniad hwn fod yn wahanol o un llys i'r llall ac o un diwrnod i'r llall, mae'n rhaid i'r penderfyniad pa un ai i gynnal achos penodol o bell gael ei wneud fesul achos.

11. Lle nad yw achos yn gallu cael ei restru ar gyfer gwrandawiad o bell fel mae pethau'n sefyll, yna dylai unrhyw restru presennol gael ei ohirio a dylai'r achos gael ei restru'n brydlon ar gyfer gwrandawiad cyfarwyddiadau, y dylid ei gynnal o bell. Dylai prif nod y gwrandawiad cyfarwyddo fod i nodi'r prif ddull o gynnal y broses llys er mwyn cyflawni gwrandawiad teg a chyfiawn o'r materion, ond ar yr un pryd, lleihau cymaint â phosibl o faint o gyswllt rhyngbersonol sydd yna rhwng pob cyfranogwr. Mewn achosion priodol, gall hyn gynnwys defnyddio gwrandawiad o bell ble mae hynny'n bosibl i gynnal y broses llys mewn modd sy'n cyflawni ystyriaeth deg a chyfiawn o'r materion. Mae profiad diweddar wedi dangos ei bod yn bosibl cynnal gwrandawiad aml-barti helaeth cymhleth yn ystod y system Busnes ar gyfer Skype sydd ar gael ar y gliniadur barnwrol. Mewn achosion eraill mae'n bosibl y bydd angen mynychu'r llys yn bersonol, ar gyfer rhai neu bob un o'r gwrandawiadau, gan rai neu bob un o'r cyfranogwyr.

Mewn unrhyw wrandawiad cyfarwyddo i drafod y trefniadau gwrandawiad yn y dyfodol, dylai barnwyr ac ynadon hefyd ofyn i'r partïon ganolbwyntio ar y dewisiadau realistig, sydd ar gael ar hyn o bryd i ddiwallu anghenion lles y plentyn yn ystod yr amgylchiadau unioni presennol.

Achosion Brys

13. Hyd yn oed ble mae achos yn un brys, dylai fod yn bosibl i drefniadau gael eu gwneud iddo gael ei gynnal o bell. Y sefyllfa diofyn yw y dylai'r gwrandawiad gael ei gynnal o bell. Ble mae achos wirioneddol yn un brys ac nad yw'n bosibl cynnal gwrandawiad o bell a bod angen penderfynu ar faterion brys, yna dylai'r llys geisio cynnal gwrandawiad wyneb yn wyneb mewn amgylchiadau (o ran y trefniadau corfforol ystafell y llys ac yn yr ardal aros) sy'n lleihau'r siawns ar gyfer haint.